



Adroddiad Arolygu

Heulwen Jones

Llanrwst

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg



Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20/05/2021

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gwarchodwr Plant
Lleoedd cofrestredig	6
Iaith y gwasanaeth	Cymraeg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	Nodi â Llaw 23 Ionawr 2017
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Nac ydy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac maent yn cael cyfleoedd priodol i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Maent yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig. Mae gan y plant ymdeimlad o berthyn ac maent yn dod yn gyfarwydd â'u trefn arferol. Maent yn meithrin eu hannibyniaeth a'u gwaith dysgu drwy chwarae yn dda. Mae'r gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd yn deall eu rôl wrth gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, ac mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol. Maent yn cynllunio'r mwyafrif o'r gweithgareddau ar y diwrnod drwy ymateb i ddymuniadau, anghenion a hwyliau'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo gweithgareddau yn yr awyr agored i ddatblygu sgiliau corfforol y plant a chodi eu hymwybyddiaeth o'u hamgylchedd lleol. Mae'r amgylchedd yn groesawgar, yn lân ac yn briodol ar gyfer anghenion y plant ac mae'r tegantau a'r adnoddau yn addas ar gyfer ystod oedran y plant y gofelir amdanynt. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r lleoliad yn effeithiol ac mae wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni ac yn ymgysylltu'n dda â'r gymuned. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

Llesiant

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn ffordd gadarnhaol, yn cael eu hannog i fynegi eu barn ac maent yn cyfrannu'n briodol at syniadau am yr hyn yr hoffent ei wneud. Er enghraifft, gwrandawyd ar gais plentyn i chwarae â'r briciau adeiladu ac roedd yn mwynhau siarad am y ffordd y byddai'n hoffi adeiladau gardd fel yn nhŷ ei nain. Gan siarad yn hyderus, disgrifiodd y plentyn yr olygfa yn dda mewn ffordd fywiog.

Mae gan y plant ymdeimlad o berthyn ac maent yn gyfarwydd â'r drefn arferol. Wrth gyrraedd o'r ysgol aeth plentyn i'r ystafell ymolchi ar unwaith i olchi ei ddwylo cyn newid i'w ddillad chwarae. Gwnaeth fwynhau dangos ei waith celf i ni a phwyntiodd at yr arddangosfa wal pen-blwydd gan ddweud wrthym yn union pryd roedd ei ben-blwydd.

Mae'r plant yn gwrtais ac yn ymddwyn yn foesgar ar y cyfan heb orfod cael eu hannog. Er enghraifft, gwnaeth un plentyn ddiolch i'r gwarchodwr plant am ei ddiod o ddŵr wrth iddo fwynhau'r achlysur cymdeithasol yn ystod amser pryd bwyd. Mae'r plant yn dangos diddordeb ac yn dangos parch at adnoddau a phobl eraill. Gwnaeth un plentyn gydweithredu'n dda pan ofynnwyd iddo dacluso a chafodd ei wobrwyo drwy ddewis sticer ar gyfer ei siart cyflawni. Gwnaeth hyn i'r plentyn deimlo'n dda am ei hun.

Wrth chwarae, mae'r plant yn ymateb yn gadarnhaol i gwestiynau am liwiau, rhifau, siapiau a meintiau. Sylwodd un plentyn fod ei dracwisg yr un lliw gwyrdd â'r briciau adeiladu. Roeddent yn datblygu eu sgiliau iaith yn dda wrth chwarae ac yn cymryd rhan gadarnhaol mewn trafodaethau.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu hannibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain. Er mwyn annog annibyniaeth, mae'r plant yn defnyddio gris i gyrraedd y sinc i olchi eu dwylo ac ar ôl sychu maent yn gwybod i roi'r tywelion papur yn y bin a ddarperir. Mae cydberthnasau cadarn rhwng y plant a'r gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd, sy'n eu helpu i feithrin eu hunan-barch yn briodol.

Gofal a Datblygiad

Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwydd yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Pan ofynnwyd iddynt am y broses y byddent yn ei dilyn pe bai ganddynt bryderon am blentyn yn eu gofal, gwnaethant ymateb yn unol â pholisi diogelu'r lleoliad. Mae eu hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu yn gyfredol. Dangosodd y gwarchodwr plant ei system cofnodi damweiniau a digwyddiadau i ni ac roedd y gwarchodwr plant a'r rhiant wedi llofnodi'r achosion. Roedd y gwarchodwr plant yn annog y plant i olchi eu dwylo â sebon a dŵr er mwyn helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo arferion iach, er enghraifft, dywedodd y rhieni fod eu plant yn cael bwydydd iach ac yn cael eu hannog i fwyta ffrwythau a llysiau. Caiff ymarferion tân eu cynnal er mwyn sicrhau bod y plant yn gwybod beth i'w wneud os bydd angen iddynt adael y safle mewn argyfwng, ond ni chaiff y canlyniad ei gofnodi. Caiff eu sgiliau corfforol eu datblygu'n dda drwy lawer o weithgareddau chwarae yn yr awyr agored. Ni welsom y weithdrefn newid cewynnau ond roedd polisi'r gwarchodwr plant yn amlinellu'r camau cywir yn unol â'r canllawiau cyfredol ar reoli heintiau.

Mae'r gwarchodwr plant a'r aelod o staff yn gweithredu mewn ffordd gynnes a gofalgar ac mae'r rhyngweithiadau yn gadarnhaol. Maent yn canmol y plant am eu hymdrechion ac yn ymgysylltu â nhw yn dda. Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud yn siŵr bod y plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu hymdrechion. Mae wedi creu system wobrwyo i ddathlu ymdrechion y plant ac mae'n eu canmol yn aml.

Dywedodd y gwarchodwr plant ei bod yn cynllunio ei gweithgareddau drwy ofyn i'r plant beth yr hoffent ei wneud a thrwy ddilyn eu diddordebau. Mae ychydig o waith olrhain datblygiad y plant. Dywedodd y rhieni eu bod yn cael tawelwch meddwl am eu bod yn cael diweddariadau dyddiol gan y gwarchodwr plant am gynnydd eu plentyn.

Mae ffotograffau o'r plant yn eu dangos yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau a dathliadau tymhorol. Er enghraifft, maent wedi gwneud cennin pedr ôl llaw ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi a chalonnau o feintiau gwahanol mewn gliter coch i ddathlu Santes Dwynwen. Mae'r rhieni wrth eu bodd â gwaith dysgu a datblygu eu plentyn. Mae rhai wedi dweud eu bod yn hoffi clywed eu plant yn canu'r caneuon newydd y maent wedi'u dysgu gyda'r gwarchodwr plant, a'u bod yn gallu dod â bagiau gartref yn llawn o'u gwaith celf eu hunain ac enghreifftiau o'r ffyrdd y maent wedi ymarfer eu sgiliau ysgrifennu.

Yr Amgylchedd

Mae gan y gwarchodwr plant systemau priodol ar waith i sicrhau bod y safle yn ddiogel ac yn lân. Caiff asesiadau risg eu cwblhau'n briodol gan nodi'r risgiau posibl i'r plant a'r mesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Ers COVID-19, esboniodd y gwarchodwr plant ei bod yn glanhau'n amlach a'i bod yn dilyn y canllawiau cyfredol. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod gwiriadau iechyd a diogelwch perthnasol yn cael eu cwblhau'n briodol.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn lân ac mae digon o le a chyfleusterau i ddiwallu anghenion y plant. Mae cynllun yr ystafell chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant, gan eu galluogi i archwilio a gwneud eu dewisiadau eu hunain am yr eitemau y maent am chwarae â nhw yn ddirwystr. Mae ardal ddynodedig i'r plant storio eu heitemau personol ac mae hyn yn helpu i greu ymdeimlad o berthyn.

Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud yn siŵr bod dodrefn o faint addas ar gael i'r plant, a bod teganau ac adnoddau hefyd yn addas ar gyfer oedran y plant sy'n cael gofal. Mae'r cyfleusterau storio dan do yn addas ac yn hygyrch i'r plant. Mae gwaith celf a chrefft y plant yn drawiadol ac yn cael ei arddangos mewn ffordd ddeniadol, gan greu amgylchedd sy'n gyfeillgar i'r plant. Er enghraifft, mae rhai arddangosfeydd yn adlewyrchu'r tymhorau ac anifeiliaid gwylt a chynefinoedd gwahanol, megis ŵyn wedi'u creu o wllân cotwm, buchod coch cwta ar blatiau papur, malwod wedi'u paentio â bysedd a draenogod wedi'u hargraffu. Mae arddangosfeydd addysgol hefyd wedi'u cyflwyno'n dda.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo'r defnydd o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu yn dda er mwyn helpu i ddatblygu dychymyg y plant. Er enghraifft, mae'r plant wedi creu pwmpenni allan o gardfwrdd, enfysau allan o bapur sidan a chymylau i'w hongian o'r nenfwd. Mae angen mwy o adnoddau i ddatblygu gwaith dysgu'r plant am y gymdeithas ehangach ac amrywiol y maent yn byw ynddi.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymestyn datblygiad y plant yn yr awyr agored drwy gynnig cyfleoedd cadarnhaol i ymgysylltu â'u hamgylchedd lleol drwy ymweld â'r parc a mynd i weld yr ŵyn mewn cae cyfagos. Mae'r ardal awyr agored yn ddeniadol ac yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda a dywedodd y rhieni fod y gwarchodwr plant yn annog llawer o chwarae yn yr ardd a bod eu plant yn mwynhau dysgu amrywiaeth o gemau corfforol gwahanol.

Arwain a Rheoli

Mae'r gwarchodwr plant wedi diweddarau'r datganiad o ddiben ond nid yw'r holl wybodaeth ofynnol wedi cael ei chynnwys i roi darlun clir i'r rhieni o'r hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith; caiff y rhain eu dilyn mewn ffordd addas ond mae angen diweddarau rhai ohonynt ac nid yw gwybodaeth gyswllt ar gyfer asiantaethau perthnasol wedi cael ei chynnwys yn y polisi diogelu. Mae'r lleoliad yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gweithredu'n ddwyieithog.

Mae'r gwarchodwr plant wrthi'n casglu sylwadau a barn pawb sy'n defnyddio ei gwasanaeth. Bydd yn ystyried y sylwadau hyn, a meysydd eraill y mae angen eu gwella, pan fydd yn ysgrifennu ei hadroddiad ar ansawdd y gofal.

Mae gwiriadau cofnod troseddol manwl y gwarchodwr plant, y cynorthwydd a'r rhai sy'n byw ar y safle yn gyfredol. Mae'r wybodaeth ofynnol wedi cael ei choladu yn y cofnodion am blant unigol ac mae'r gwarchodwr plant yn cofnodi presenoldeb y plant a'r rhai sy'n gofalu amdanynt yn gyson. Mae eu hyfforddiant yn gyfredol ac mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarnu gyda'r cynorthwydd.

Mae partneriaethau cadarnhaol wedi'u meithrin â'r rhieni. Dywedodd y rhieni wrthym fod y lleoliad yn lle arbennig a bod gofal eu plentyn wedi bod yn "incredible" ("gwyach"). Gwnaethant ddweud eu bod yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau a'i bod yn hawdd mynd at y gwarchodwr plant a'i chynorthwydd os bydd ganddynt unrhyw ymholiadau. Dywedodd y rhieni hefyd eu bod yn gwerthfawrogi ymdrechion y gwarchodwr plant a'r cynorthwydd yn ystod y pandemig i barhau i roi cyfle i'w plant weld a chwarae gyda'u ffrindiau mewn amgylchedd diogel.

Mae'r gwarchodwr plant wedi gwneud yn siŵr bod trefniadau ymgysylltu â'r gymuned yn effeithiol. Er enghraifft, derbyniodd wahoddiad i gwblhau hyfforddiant perthnasol mewn meithrinfa leol, a dywedodd y gwarchodwr plant fod hyn wedi bod yn werthfawr. Dywedodd y rhieni fod eu plant yn mynd ar deithiau cerdded i godi eu hymwybyddiaeth o'r gymuned leol a'r byd naturiol. Roedd ffotograffau o'r plant yn eu dangos yn mwynhau eu hamser yn chwarae yn y parc yn ymgysylltu â'u hamgylchedd, sy'n cyfrannu at feithrin eu sgiliau cymdeithasol a rhyngweithio â phobl eraill.

Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1: Dylai'r gwarchodwr plant gofnodi'r canlyniad ar ôl cynnal ymarferion tân.

A2: Mae angen datblygu gwybodaeth y plant am fyw mewn byd amrywiol ac amlddiwylliannol a'u dealltwriaeth ohono.

A3: Dylai'r gwarchodwr plant sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu, eu bod yn cynnwys y manylion cyswllt angenrheidiol ar gyfer awdurdodau perthnasol a'u bod wedi dyddio.

Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni

Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni

Dim	
-----	--

Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth

Dim	
-----	--

Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau

Nid yw'r datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol sy'n ymwneud ag ystod anghenion y plant perthnasol y mae'r gwarchodwr plant yn bwriadu ei diwallu; na manylion y trefniadau i adolygu'r datganiad o ddiben a hysbysu AGC am newidiadau i'r gwasanaeth o fewn 28 diwrnod. Yr effaith ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yw nad oes gan y rhieni yr holl wybodaeth ofynnol sy'n angenrheidiol i'w helpu i wneud dewis ar sail gwybodaeth am y gofal a ddarperir.	Rheoliad 15 (1) (b) Rheoliad 15 (4) (b)
--	--

Mae angen gwella'r maes/meysydd a nodir uchod, ond nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ar yr achlysur hwn. Mae hyn am nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Graddau	Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu
Rhagorol	Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.
Da	Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
Digonol	Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant.
Gwael	Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio.

Dyddiad Cyhoeddi 09/07/2021